# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Chwefror 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## (315)v3

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NNDM5942**

**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**

**Elin Jones (Ceredigion)**

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at nifer y canghennau banc sydd wedi'u cau yng Nghymru ac, yn arbennig, pa mor aml y mae canghennau yn cael eu cau hyd yn oed pan mai'r gangen banc yw'r banc olaf yn yr ardal.

2. Yn galw ar fanciau i ystyried effaith cau canghennau banc ar gymunedau trefol a gwledig ac unigolion, yn enwedig pobl hŷn a busnesau bach, cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud ynghylch eu cau.

3. Yn galw ar fanciau i gynnal ymgynghoriad ystyrlon, gan gynnwys sefydliadau cymunedol lleol, sefydliadau pensiynwyr a grwpiau busnes cyn dod i benderfyniadau terfynol ynghylch cau canghennau, yn enwedig pan mai'r gangen banc dan sylw yw'r unig un sydd ar ôl yn yr ardal.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau eu bod yn ystyried effaith cau canghennau banc wrth lunio eu polisïau perthnasol ar wasanaethau ariannol, datblygu economaidd a rheoleiddio ariannol.

**Cefnogir gan**:

**Christine Chapman (Cwm Cynon)**

**Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**

**Russell George (Sir Drefaldwyn)**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

**David Rees (Aberafan)**

**Sandy Mewies (Delyn)**

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

**Alun Ffred Jones (Arfon)**

**Gwyn Price (Islwyn)**

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

## 4 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi

(60 munud)

**NDM5951 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2015.

Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 3 Chwefror 2016.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM5952 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i ddatganoli manyleb a phroses gaffael masnachfraint nesaf rheilffyrdd Cymru a'r Gororau.

2. Yn nodi â braw bwriad Llywodraeth y DU i ddileu rhai gwasanaethau o'r fasnachfraint honno cyn ei datganoli.

3. Yn nodi nad yw cyfyngiad o'r fath yn gymwys, ac ni fu'n gymwys, i'r fasnachfraint rheilffyrdd yn yr Alban.

4. Yn credu y byddai ail-lunio map gwasanaethau masnachfraint Cymru a'r Gororau yn sylweddol yn tanseilio'r broses o ddatganoli swyddogaethau

trafnidiaeth ac yn niweidio buddiannau teithwyr rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau.

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi pwysigrwydd cysylltiadau rheilffordd trawsffiniol i Fanceinion, Lerpwl a Birmingham i economïau gogledd a chanolbarth Cymru.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4.

*[os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

', yn enwedig cael gwared ar lwybrau trawsffiniol a all danseilio atyniad masnachol y fasnachfraint'

## 6 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM5954 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y gwerth i economi Cymru o gynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru

2. Yn galw am lunio cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad gyda Chymru'n croesawu'r Gemau hynny yn 2026 neu 2030.

3. Yn galw am lunio cais i ddod â Ras Fawr beicio i Gymru, ar gyfer dynion a menywod.

4. Yn galw am ddigwyddiad swyddogol yn y Cynulliad hwn i ffarwelio â thîm pêl-droed Cymru wrth iddo fynd i gystadlu yn Ewro 2016 yr UEFA.

5. Yn galw am sefydlu 'parthau cefnogwyr' ledled Cymru fel bod y rhai na allant fod yn bresennol yn Ewro 2016 yr UEFA yn gallu cefnogi eu tîm gartref.

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn credu bod angen cynllunio trafnidiaeth a gwaith rheoli effeithiol ar bob digwyddiad mawr i sicrhau profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr a lleihau aflonyddwch i drigolion a busnesau lleol.

## 7 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

(15 munud)

**NDM5956 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5953 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Pwysigrwydd ysgolion gwledig: Y modd y mae ysgolion yn enaid cymunedau gwledig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Chwefror 2016 i'w hateb ar 10 Chwefror 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y dyraniad yn y gyllideb i'r portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus? OAQ(4)0655(FIN)

2. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb Llywodraeth Cymru ar Orllewin De Cymru? OAQ(4)0658(FIN)

3. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd datganiad polisi caffael Cymru? OAQ(4)0659(FIN)**W**

4. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): Faint o gynnyrch a wnaed yng Nghymru a gafwyd mewn perthynas â phrosiectau adeiladu a seilwaith a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)0657(FIN)

5. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio arian Ewropeaidd? OAQ(4)0665(FIN)

6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gyfarfodydd a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch ariannu prosiectau seilwaith? OAQ(4)0669(FIN)

7. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad ariannol i'r portffolio Cyfoeth Naturiol yng nghyllideb ddrafft 2016-17? OAQ(4)0668(FIN)

8. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa flaenoriaethau a gafodd eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio Addysg a Sgiliau? OAQ(4)0662(FIN)

9. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd a gynigir gan y pwerau caffael newydd arfaethedig? OAQ(4)0666(FIN)

10. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amcanion Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol? OAQ(4)0663(FIN)

11. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni cyfalaf yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0664(FIN)

12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth ariannol ar gyfer cymunedau gwledig yn y gyllideb ddrafft? OAQ(4)0654(FIN)

13. Aled Roberts (North Wales): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch ailddosbarthu cyllid o fewn y portfolio hwnnw? OAQ(4)0656(FIN)**W**

14. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraethwr Banc Lloegr ynglŷn â materion ariannol? OAQ(4)0661(FIN)**W**

15. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y gyllideb ar y portfolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0670(FIN)**W**

## Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog? OAQ(4)0673(PS)

2. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r gefnogaeth i ddioddefwyr trais domestig yng Nghymru? OAQ(4)0663(PS)

3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch diwygio fformiwla ariannu llywodraeth leol? OAQ(4)0675(PS)

4. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0678(PS)

5. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar drais domestig? OAQ(4)0677(PS)**W**

6. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am effaith setliad llywodraeth leol 2016-17 ar orllewin Cymru? OAQ(4)0666(PS)**W**

7. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wrthwynebiad Llywodraeth Cymru i Fil Undebau Llafur Llywodraeth y DU? OAQ(4)00668(PS)

8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y gwasanaethau tân yng Nghymru? OAQ(4)0664(PS)

9. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0669(PS)

10. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith fformiwla llywodraeth leol Cymru ar y gyfran o'r gyllideb ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0665(PS)

11. Leanne Wood (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith addysgol Gwasanaeth Tân De Cymru? OAQ(4)0670(PS)

12. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0672(PS)

13. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynghorau cymuned? OAQ(4)0667(PS)

14. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa ymchwil y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar y gwasanaethau llywodraeth leol a ddarperir? OAQ(4)0676(PS)

15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth yw nifer y menywod yn ardal bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro y nodwyd eu bod yn dioddef o anffurfio organau cenhedlu benywod ac a gyfeiriwyd i gael triniaeth i'w hailagor? OAQ(4)0674(PS)